

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol

(Er mwyn goruchwylio'r gwaith o roi Cynllun Gweithredu ar Wrth-hiliaeth
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar waith)

DISGRIFIAD O'R RÔL A MEINI PRAWF AR GYFER AELODAU ANNIBYNNOL O'R PANEL

Aelodau'r Panel: Meini Prawf / Rhinweddau Dymunol y Rôl

- Rhaid iddynt breswyllo neu weithio yng Nghymru.
- Rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn.
- Rhaid iddynt fod yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth i'r ffordd y caiff gwasanaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru eu darparu.
- Rhaid iddynt ddangos dealltwriaeth gref o anghydraddoldeb hiliol ac ymrwymiad personol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
- Rhaid iddynt ddangos y gallu i wrando ar safbwyntiau pobl eraill a'u hystyried, a thrin pawb yn deg a chyda pharch.
- Rhaid iddynt allu ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol yn briodol.
- Rhaid iddynt ddangos y gallu i gwestiynu, herio, pwysu a mesur materion a mynegi barn gytbwys, resymol a chymesur.
- Rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth o un agwedd neu'n fwy ar y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, yn ddelfrydol drwy brofiad byw personol e.e. fel troseddwr, dioddefwr neu dyst (neu berthynas un o'r rhain) neu fel cynweithiwr proffesiynol yn y sector cyfiawnder troseddol.
- Rhaid iddynt allu mynychu a bod yn barod i fynychu cyfarfodydd rheolaidd ar-lein/yn rhithwir.

Cadeirydd y Panel: Meini Prawf / Rhinweddau Dymunol y Rôl

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am arwain y panel. Yn hynny o beth, mae'r Cadeirydd yn chwarae rôl hollbwysig wrth greu'r amodau iawn ar gyfer effeithiolrwydd y panel. Yn ogystal â'r meini prawf uchod ar gyfer pob aelod o'r panel, bydd Cadeirydd y panel yn gwneud y canlynol:

- Dangos lefelau uchel o wrthrychedd, didueddrwydd a thegwch.
- Darparu arweinyddiaeth a disgyblaeth eithriadol ymhlith aelodau'r panel.
- Arddangos agwedd glir, barn gyson gadarn, a record dda o ymdrin â materion anodd gydag awdurdod a hyder.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu gwych.
- Annog cyfranogiad gan holl aelodau'r panel.

- Gweithio'n unol â'r egwyddor o welliant cadarnhaol, osgoi gwrthdaro, a defnyddio barn broffesiynol i herio ffyrdd cyfredol o weithio mewn modd priodol.

Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Cadeirio cyfarfodydd chwarterol ac ad hoc ychwanegol o'r panel.
- Cytuno ar agendâu cyfarfodydd a sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yn gywir.
- Mynd i gyfarfodydd Grŵp Cyflawni Cydraddoldeb Hiliol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ar gais, er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith a chanfyddiadau'r panel, a chysylltu ag arweinwyr a fforymau cenedlaethol perthnasol ar gyfer cydraddoldeb hiliol.
- Gweithio gydag is-grŵp hil Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru i roi systemau ar waith ar gyfer casglu safbwyntiau plant a phobl ifanc.
- Cynnal egwyddorion llywodraethu da.
- Gweithredu fel llefarydd ar ran y panel wrth i'r angen godi.